

Cyfle i weithio gyda ni

Manyleb: Cymorth gyda monitro proses gyllidebu Llywodraeth Cymru

Cyflwyniad

Mae'r fanyleb hon yn agored i unrhyw un â diddordeb mewn cyfle i weithio gyda swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar gynorthwyo a monitro'r modd y mae Llywodraeth Cymru'n gwneud Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhan annatod o'u proses gyllidebu strategol.

Rydyn ni'n croesawu ceisiadau oddi wrth unigolion neu gonsortia ar elfennau unigol neu holl elfennau'r gwaith.

Cyn cyflwyno eich cynnig, rydyn ni hefyd yn cynghori darparwyddion â diddordeb i gyfarwyddo â:

- Gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru);
- Canllawiau statudol cysylltiedig â'r Ddeddf:
[Rhannu Pwrpas, Rhannu Dyfodol](#)
- Yr argymhellion a wnaethpwyd gan y Comisiynydd i Lywodraeth Cymru yn 2018: [Cyngor i Lywodraeth Cymru ar ystyried y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y broses gyllidebu](#)

Dyllid anfon cynigion at contactus@futuregenerations.wales 'At sylw Cathy Madge' erbyn 5pm ar ddydd Llun 6^{ed} Mai. Os wnewch chi gyrraedd y rhestr fer, cewch wahoddiad i gyflwyno eich syniadau mewn sesiwn yn ystod yr wythnos yn cychwyn ar 20^{fed} Mai gyda'r bwriad o gychwyn ym Mehefin.

Am ragor o wybodaeth, os gwelwch yn dda cysylltwch ag Eurgain Powell -
Eurgain.powell@futuregenerations.wales

Cyd-destun

"Gobeithiwn y bydd yr hyn y mae Cymru'n ei wneud heddiw'n cael ei wneud gan y byd yfory. Gweithredu, yn fwy na thrafod, yw'r gobaith ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol". - Nikhil Seth, Y Cenhedloedd Unedig

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf") yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Y bwriad yw peri i gyrff cyhoeddus feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl, gyda chymunedau a gyda'i gilydd a cheisio atal problemau rhag digwydd a mynd i'r afael â materion cyffredinol drwy fabwysiadu ymagwedd fwy cydgysylltiedig.

I sicrhau ein bod i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn nodi saith nod llesiant.

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymry sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang

Cyflwynodd y Ddeddf Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru ("y Comisiynydd") - gwarcheidwad buddiannau cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Ei rôl yw cynorthwyo'r 44 corff cyhoeddus, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, i weithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant a monitro ac adrodd ar eu cynnydd. Gallwch ddarganfod mwy am rôl y Comisiynydd [yma](#).

Mae'r Ddeddf yn sefydlu 'egwyddor datblygu cynaliadwy', sy'n dweud wrth sefydliadau sut i fynd ati i gyflawni eu dyletswydd o dan y Ddeddf. Mae angen i gyrff cyhoeddus sicrhau eu bod, wrth wneud penderfyniadau, yn ystyried yr effaith y gallent eu cael ar bobl a fydd yn byw eu bywydau yng Nghymru'r dyfodol. Mae yna bum peth sydd ag angen i gyrff cyhoeddus feddwl amdanynt i ddangos eu bod yn gweithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Bydd dilyn y ffyrdd hyn o weithio'n ein helpu i weithio gyda'n gilydd yn well, osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol a mynd i'r afael â rhai o'r heriau hirdymor yr ydym yn eu hwynebu.

Pum dull o weithio

Hirdymor — Pwysigrwydd creu cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen i warchod y gallu i gwrdd ag anghenion hirdymor hefyd.

Atal - Sut fedr gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gwrdd â'u hamcanion.

Integreiddio - Ystyried sut y gallai amcanion llesiant cyrff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

Cydweithio - Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu â gwahanol rannau'r corff ei hunan) a fedrai helpu'r corff hwnnw i gwrdd â'i amcanion llesiant?

Ymgyfraniad - Pwysigrwydd ennyn ymgyfraniad pobl â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal a wasanaethir gan y corff.

Mae strategaeth gyllidebu a phrosesau penderfynu Llywodraeth Cymru'n rhan allweddol o sbarduno newid yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru drwyddi draw, gan eu bod yn fframio cyfran arwyddocaol o benderfyniadau a wneir gan gyrff cyhoeddus. Mae'r Comisiynydd wedi bod yn rhoi cyngor a chymorth i Lywodraeth Cymru dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ar sut y gallant adlewyrchu'r pum dull o weithio'n well yn y gyllideb, a sicrhau bod eu penderfyniadau ar wariant yn eu galluogi i gyflawni eu hamcanion llesiant.

Llynedd gwnaeth y Comisiynydd graffu ar y gyllideb ddrafft (2019-20), gan ystyried sut yr oedd y gyllideb yn ei chyfanrwydd yn adlewyrchu'r Ddeddf, gan archwilio hefyd yn fwy manwl berthnasedd penderfyniadau'r gyllideb i iechyd meddwl, datgarboneiddio a gofal cymdeithasol. Rhoddodd dystiolaeth i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn seiliedig ar y craffu hwn - mae'r trawsgrifiad ar gael ar

<http://record.assembly.wales/Committee/5140#A46804> <<http://record.assembly.wales/Committee/5140>>

Yn Rhagfyr, 2018 cyhoeddodd y Comisiynydd gyngor i Lywodraeth Cymru gyda 10 argymhelliad ar y modd y dylent adeiladu ar y cynnydd a wnaethpwyd ganddynt i fabwysiadu camau mwy uchelgeisiol trawsffurfiol o 2019 ymlaen. Mae'r argymhellion hyn yn ymwneud â:

- A. Datblygu ymagwedd tuag at wirio'r cynnydd, o flwyddyn i flwyddyn, a wneir yn yr ystyriaeth a roddir i'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y broses gyllidebu;
- B. Defnyddio adolygiad gwariant Llywodraeth y DG fel cyfle i gymryd camau pellach tuag at ymagwedd hirdymor;
- C. Gweithredu'r diffiniad o atal ar draws Llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus;
- D. Deall y cytbwysedd a ddymunir mewn buddsoddi mewn ymagweddau ataliol ar draws Llywodraeth, a sefydlu ymagweddau ataliol yn unol â hynny;
- E. Sicrhau bod buddsoddiad mewn datgarboneiddio'n adlewyrchu uchelgais.

Gellir cael copi o'r adroddiad a'r argymhellion yma: <http://futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2018/12/2018-11-29-FGC-Budget-Recommendations-ENG.pdf>

Diben y fanyleb hon yw nodi gofynion ar gyfer cyfnod nesaf y gwaith craffu ar y gyllideb a'r meysydd y mae'r Comisiynydd yn dymuno ffocysu arnynt yn 2019.

Y gwaith

Ar gyfer 2019 bydd y gwaith cyllidebu'n ffocysu ar dri maes - mae'r meysydd i gyd yn cynnwys gwaith cychwynnol i fod yn rhan o gyngor a chymorth y Comisiynydd i Lywodraeth Cymru, i'w ddilyn gan ffocws ar fonitro gweithredu. Rydym yn croesawu diddordeb rhai â'r gallu i gynorthwyo un maes unigol neu'r tri.

1. Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyd-gynhyrchu "Taith" i ddangos y camau y dylent fod yn eu cymryd o dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, o newidiadau syml i arwain y ffordd; gan fonitro'r gyllideb yn erbyn y fframwaith.

Gellir cael gwybodaeth bellach am waith y Comisiynydd ar Deithiau mewn perthynas â'r nodau llesiant ar <https://futuregenerations.wales/news/we-want-your-views-on-the-journey-to-the-wales-of-the-possible%e2%80%af/>.

Mae trafodaethau cychwynnol ar y gwaith hwn wedi digwydd rhwng Llywodraethau mewn gwledydd eraill; ac mae diddordeb arbennig gan Lywodraeth Seland Newydd sydd wedi mabwysiadu ymagwedd arloesol tuag at gyllidebu ar gyfer llesiant. Gall y bydd cyfleoedd i weithio ar y cyd a rhannu dysgu a datblygu meddwl ac arfer yn y maes hwn.

2. Defnyddio'r diffiniad o atal y cytunwyd arno llynedd sy'n ffocysu ar y modd y mae proses gyllidebu Llywodraeth Cymru'n rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn atal; a monitro hyn.

3. Yn dilyn cyhoeddi 'Ffyniant i Bawb: Cymru Garbon Isel' a'r ffocws ar ddatgarboneiddio, gwaith pellach i asesu'r lefel o fuddsoddiad sydd ei angen i gynorthwyo blaenoriaethau datgarboneiddio; a monitro hyn. Mae 'Ffyniant i Bawb: Cymru Garbon Isel' ar gael ar:
<https://gweddill.gov.wales/topics/environmentcountryside/climatechange/emissions/prosperity-for-all-a-low-carbon-wales/?lang=en>

Bydd y gwaith yn digwydd yn raddol; amserlenni dangosol fel a ganlyn:

Mehefin - Gorffennaf	Cyd-gynhyrchu Taith i'w gyhoeddi yng nghanol/diwedd Gorffennaf
Awst - Medi	A. Datblygu amcangyfrifon dangosol ar gyfer y buddsoddiad sydd ei angen i gynorthwyo blaenoriaethau o fewn Cymru Garbon Isel. B. Cwmpasu cyfleoedd ar gyfer blaenoriaethu buddsoddiad ac atal.
Hydref – Tachwedd	Dadansoddi cyllideb ddrafft gyda ffocws ar wariant ataliol a datgarboneiddio.

Bydd Y Comisiynydd yn sefydlu gweithgor o arbenigwyr i weithredu fel 'seinfwrdd' ac i'w chynghori ar y gwaith.

Bydd angen i'r darparydd/ion hyn :

- Weithio gyda Swyddfa'r Comisiynydd i gytuno ar gynllun prosiect i'w gyflawni o fewn terfynau'r amserlenni (Mehefin-Tachwedd 2019).
- Gytuno ar ymagwedd tuag at y prosiect mewn ffordd sy'n defnyddio'r pum dull o weithio a nodir yn y Ddeddf (gweler uchod).
- Fod yn barod i gydweithio, mewn partneriaeth ag eraill.
- Adeiladu ar argymhellion a disgwyliadau blaenorol a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd; yn ogystal ag edrych ar arfer gorau o fannau eraill.
- Coladu tystiolaeth a gasglwyd yn gyfres o allbynnau (ar gyfer eu defnyddio'n fewnol ac allanol) wedi eu hysgrifennu mewn Saesneg plaen hawdd ei ddarllen.
- Rhoi unrhyw ddata crai a dadansoddiad i'r Comisiynydd ar gyfer ei ddefnyddio'n fewnol yn y swyddfa.

Ein cyllideb ddangosol ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn yw £20,000.

Bydd y darparydd/ion yn gweithio gyda'r Comisiynydd rhwng Mehefin a Thachwedd 2019, gyda'r bwriad o gyhoeddi'r argymhellion yn Nhachwedd/Rhagfyr 2019.

Bydd contract yn rhoi manylion ar y termau a'r amodau gwaith yn cael ei gytuno rhwng y darparydd/ion a'r Comisiynydd cyn i'r gwaith gychwyn.

Y gofynion

Mae'r gofynion canlynol yn orfodol :

- Profiad o ddadansoddi peth wmbredd o wybodaeth i lunio casgliadau ehangach;
- Peth gwybodaeth o broses gyllidebu Llywodraeth Cymru;
- Dealltwriaeth hollgynhwysfawr o'r hyn y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn anelu at ei gyflawni, drwy ofynion cyfreithiol yn ogystal â'i bwriadau ehangach.
- Ymrwymiad amlwg i weithio mewn dulliau newydd sy'n cynorthwyo'r Ddeddf, sy'n maxsimeiddio cyfleoedd ac adeiladu perthynas â swyddfa'r Comisiynydd a chyfrannu at feysydd gwaith eraill sy'n cael eu datblygu.

Hefyd, byddai'n ddefnyddiol i chi feddu ar brofiad o weithio mewn meysydd sy'n berthnasol i:

- Atal a gwariant ataliol
- Datgarboneiddio

Eich Cynnig

Dylai eich cynnig gynnwys:

1. Yr ymagweddau y byddech yn eu mabwysiadu ar gyfer cyflawni'r gwaith a ddisgrifir uchod.
2. Sut y byddech yn cyflawni'r gofynion a amlinellir uchod ar gyfer cyflawni'r gwaith mewn dull sy'n cefnogi pwyslais y Comisiynydd ar gydweithio, gweithio mewn partneriaeth a maxsimeiddio dysgu.
3. Syniadau am sut i ymgymryd â'r gwaith hwn mewn dull arloesol a chynhwysol gan gyfeirio'n arbennig at y modd y gall y Comisiynydd a chyrrff cyhoeddus ddefnyddio'r dadansoddiad i ddwyn amcanion y Ddeddf rhagddynt.
4. Dadansoddiad llawn o gostau yn erbyn allbynnau.

Amserlen

Os gwelwch yn dda anfonwch eich cynigion at: contactus@futuregenerations.wales 'At Sylw Cathy Madge' erbyn **5pm** ar ddydd **Llun 6^{ed} Mai**. Os wnewch chi gyrraedd y rhestr fer cewch wahoddiad i gyflwyno eich syniadau mewn sesiwn yn ystod yr wythnos yn cychwyn ar ddydd **Llun 20^{fed} Mai**, gyda'r bwriad o gychwyn y gwaith ym Mehefin.

Wedyn bydd angen cytuno ar contract rhwng y darparydd/ion a'r Comisiynydd.